# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 30 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 64(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Cwestiwn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol

**Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith bod Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi datgan rhybudd du neithiwr?

Cwestiwn i Weinidog yr Economi

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad fod Orthios wedi cael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr ac effaith hynny ar y 120 o swyddi yn lleol?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgor

**NNDM7978** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

1. Peredur Owen Griffiths (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Heledd Fychan (Plaid Cymru);

2. Natasha Asghar (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig), a

3. Sam Rowlands (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod amgen o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Natasha Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

(60 munud)

**NDM7970** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 'Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio', a osodwyd ar 28 Ionawr 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mawrth 2022.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cefnogi fferyllwyr

(60 munud)

**NDM7971** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae fferyllwyr wedi'i wneud drwy gydol y pandemig, yn ogystal â'u rôl hanfodol yn y gwaith o gefnogi gofal sylfaenol ac eilaidd.

2. Yn croesawu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Clinigol Cenedlaethol newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2022.

3. Yn pryderu am ganlyniadau Arolwg Lles Gweithlu 2021 y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, sy'n dangos bod naw o bob 10 ymatebydd mewn perygl mawr o gael eu gorweithio a bod un o bob tri wedi ystyried gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) lleihau biwrocratiaeth ar frys drwy gyflwyno e-bresgripsiynau a darparu mynediad at gofnodion meddygol;

b) sicrhau amser dysgu pwrpasol wedi'i ddiogelu o fewn oriau gwaith ar gyfer lles ac astudio;

c) buddsoddi yn y gweithlu fferyllol i hyfforddi mwy o staff fferylliaeth ac uwchsgilio staff presennol.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Tomenni risg uchel

(60 munud)

**NDM7972** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y gwyddys bod mwy na 300 o domenni wedi'u dosbarthu yn rhai risg uchel, a gallai'r glaw cynyddol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ansefydlogi tomenni ymhellach ar draws y cymoedd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod tomenni risg uchel yn cael eu gwneud yn ddiogel drwy:

a) gofyn i awdurdodau lleol ryddhau gwybodaeth am ble mae tomenni risg uchel wedi'u lleoli;

b) mynnu bod Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i ail-lunio, adennill ac adfer tomenni;

c) gosod systemau rhybuddio cynnar lle bynnag y bo modd;

d) adfer y grant adfer tir i helpu i ddelio â risgiau ar domenni.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol i helpu i adfywio'r ardaloedd o amgylch y tomenni.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod bod diogelwch tomenni glo yn gymhwysedd datganoledig.

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi gwybodaeth am union leoliadau tomenni risg uchel;

b) gosod systemau rhybuddio cynnar ar gyfer tomenni risg uchel, lle bo hynny'n bosibl;

c) creu awdurdod goruchwylio tomenni glo newydd i sefydlu cyfundrefn ddiogelwch newydd, cynnal asesiadau risg a chynlluniau rheoli tomenni;

d) ffurfioli cytundebau rhwng perchnogion, defnyddwyr tir a'r awdurdod goruchwylio tomenni glo i weithredu mewn argyfwng.

**Gwelliant 3** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn cyfrannu at y dull o reoli tomenni glo yn y dyfodol a'u hadfer, gan elwa i'r eithaf ar gyfleoedd i greu swyddi, cynnig hyfforddiant, uwchsgilio a sicrhau manteision ehangach.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7969** [Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)]

Clefyd niwronau motor a mynediad at driniaeth a chyfleusterau yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 26 Ebrill 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 23/03/2022 i'w hateb ar 30/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ57887 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch tomenni glo yn Nwyrain De Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ57878 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatgarboneiddio tai?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OQ57867 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynllun atal llifogydd bae Hirael, Bangor?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

4 OQ57890 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau diogelwch ynni?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ57877 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i brosiectau ynni adnewyddadwy bach a chymunedol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ57872 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi unigolion i yrru cerbydau gwyrddach?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ57875 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni?

8

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ57882 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau tai addas i ateb galw cymunedol?

9

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ57869 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i asesu a diwallu'r angen am gartrefi rhent?

10

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ57884 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gael landlordiaid yn y sector preifat i ddatgarboneiddio eu heiddo?

11

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ57897 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer metro de Cymru?

12

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

OQ57894 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i geisiadau i alw i mewn y cais cynllunio ar gyfer parc busnes yn Model Farm ym Mro Morgannwg?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

1

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ57891 **(e)**

Pa gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

2

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ57864 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi myfyrwyr safon uwch eleni o ystyried effaith y pandemig ar eu haddysg?

3

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ57873 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y cronfeydd ariannol wrth gefn sydd gan ysgolion?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

4

OQ57868 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yng Ngogledd Cymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

5

OQ57883 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o effaith amser chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ar iechyd meddwl plant?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6

OQ57893 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage ym Mhenarth?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

7

OQ57885 **(e)**

Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei roi ar waith i gefnogi disgyblion sy'n byw mewn tlodi dros wyliau ysgol y Pasg?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

8

OQ57899 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo perthnasoedd iach yng nghwricwlwm yr ysgol?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9

OQ57888 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y penderfyniad i gau ysgolion ym Mhowys a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar dargedau Llywodraeth Cymru i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg?

**Buffy Williams** *Rhondda*

10

OQ57892 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn Rhondda?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11

## OQ57870 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi teuluoedd i dalu cost y diwrnod ysgol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

12

## OQ57896 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu dyfodol addysg uwch?